Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 18 March 2024 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Ian Scott (Chair), Will Thomas (Vice Chair), Rebecca Fogarty, and Carrie Townsend Jones

**Officers Present**: Diane Athernought – Customer Services Officer and Ian Hughes - CSO

**Apologies:** Cllr. Pamela Erasmus

**Declarations of Interest**
None

**Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 19 February 2024 as a true record.

**Outstanding Actions from Previous Meeting**

**RESOLVED** outstanding actions updated, details recorded in 'outstanding action' report by CSO.

**Budget Monitoring Reports to 31/01/2024 - Paul Beynon, RFO**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, no queries regarding the reports had been raised with RFO prior to the meeting. No questions were raised at the meeting in relation to the reports.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st January 2024

Mumbles Community Council

**Mumbles Movers and Gower Groovers Grant Application**
Grant Application for an amount up to £829 per term to assist in relation to the elderly and disabled, to provide friendships and improve their social networking.

A discussion took place on whether this application, whilst previously successful fell within the guidelines of MCC's grant applications. Other recent applications had been unsuccessful, and some councillors believed that the approval of this application would be inconsistent with previous decisions and that this application should not be approved until MCC's Grant Guidance had been fully implemented.

During this discussion contact with Cllr Will Thomas who had joined the meeting remotely was lost at 6.38pm

**RECOMMENDED** that the amount of £829 per term not be granted to Mumbles Movers and Gower Groovers on a majority of two to one.

**Newton Athletic Football Club Grant Application**
Grant Application for an amount up to £1,500 to assist in holding the first summer football tournament at Underhill Park.

A discussion took place on what is anticipated to be a new annual event. All councillors were enthusiastic about the project which will inclusive. It was accepted by the committee that additional costs would be incurred due to the event being inaugurated this year. However, it is hoped that additional money will be raised through other means including sponsorship. Concerns were raised by councillors over certain environmental issues including sustainability.

**RECOMMENDED:** that the amount of up to £1,500 be granted to Newton Athletic Football Club to assist in holding their first summer football tournament at Underhill Park subject to the following action being carried out.

**ACTION**: Lydia Graham, The Environmental Officer to make contact with the grant applicant and provide environmental issues such as the use of bottled water and other sustainability concerns. In addition, Lydia to suggest the applicant liaises with Plastic Free Mumbles for additional guidance.

Cllr Thomas rejoined the meeting at 6.47pm and apologised for his absence due to technical issues.

Meeting ended 6.48pm

Next Meeting 18.04.2024

# Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024 am 6.30pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Ian Scott (cadeirydd), Will Thomas (is-gadeirydd), Rebecca Fogarty, a Carrie Townsend Jones

**Swyddogion yn bresennol**: Diane Athernought – Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**FI2403-01** **Ymddiheuriadau:** Y cynghorydd Pamela Erasmus

**FI2403-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**FI2403-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2024 yn gofnod cywir.

**FI2403-04** **Camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol**

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u diweddaru, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**FI2403-05** **Adroddiadau Monitro'r Gyllideb hyd at 31/01/2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon wedi'u darparu i gynghorwyr yn flaenorol, ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau

am yr adroddiadau i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod mewn perthynas â'r adroddiadau.

FI2403-06 **PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2024.

**Cais Grant 'Mynd yn y Mwmbwls' a 'Gwefreiddiol yn y Gŵyr'**
Cais am grant am swm hyd at £829 y tymor i gynorthwyo mewn perthynas â'r henoed a'r anabl, i ddarparu cyfeillgarwch a gwella eu rhwydweithio cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth i weld a oedd y cais hwn, er ei fod yn llwyddiannus yn flaenorol, yn bodloni canllawiau ceisiadau am grantiau Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Roedd ceisiadau diweddar eraill wedi bod yn aflwyddiannus, ac roedd rhai cynghorwyr o'r farn y byddai cymeradwyo'r cais hwn yn anghyson â phenderfyniadau blaenorol ac na ddylid cymeradwyo'r cais hwn hyd nes y byddai canllawiau grantiau Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi'u gweithredu'n llawn.

Yn ystod y drafodaeth hon collwyd cyswllt â'r cynghorydd Will Thomas a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod o bell am 6.38pm

**ARGYMHELLWYD** peidio â rhoi'r swm o £829 y tymor i 'Mynd yn y Mwmbwls' a 'Gwefreiddiol yn y Gŵyr' o fwyafrif o ddau i un.

**Cais Grant Clwb Pêl-droed Newton Athletic**
FI2403-07 Cais am Grant am swm hyd at £1,500 i gynorthwyo i gynnal twrnamaint pêl-droed cyntaf yr haf ym Mharc Underhill.

Cafwyd trafodaeth ar yr hyn a ragwelir a fydd yn ddigwyddiad blynyddol newydd. Roedd pob cynghorydd yn frwdfrydig am y prosiect a fydd yn gynhwysol. Derbyniodd y pwyllgor y byddai'n rhaid talu costau ychwanegol, oherwydd bod y digwyddiad yn cael ei sefydlu eleni. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd arian ychwanegol yn cael ei godi drwy ddulliau eraill gan gynnwys nawdd. Codwyd pryderon gan gynghorwyr ynghylch rhai materion amgylcheddol gan gynnwys cynaliadwyedd.
**ARGYMHELLWYD:** rhoi'r swm o hyd at £1,500 i Glwb Pêl-droed Newton Athletic i gynorthwyo i gynnal eu twrnamaint pêl-droed haf cyntaf ym Mharc Underhill yn amodol ar gymryd y cam gweithredu canlynol.

Mumbles Community Council

**CAM GWEITHREDU:** Lydia Graham, Swyddog yr Amgylchedd i gysylltu â'r ymgeisydd am grant a darparu gwybodaeth am faterion amgylcheddol megis y defnydd o ddŵr potel a phryderon cynaliadwyedd eraill. Yn ogystal, bydd Lydia yn awgrymu bod yr ymgeisydd yn cysylltu â Mwmbwls Di-blastig i gael arweiniad ychwanegol.

Ailymunodd y cynghorydd Thomas â'r cyfarfod am 6.47pm ac ymddiheurodd am ei absenoldeb oherwydd materion technegol.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.48pm.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18.04.2024

Mumbles
Community Council